



DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED

Astudiaeth Ymchwil

Crynodeb Gweithredol

1. Nod ac Amcanion Ymchwil

- 1.1 Yn Nhachwedd 2014 comisiynwyd Prifysgol Bangor i ymgymryd â'r astudiaeth ymchwil hon fel rhan o werthusiad Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg: *iaith fyw: iaith byw*.
- 1.2 Mae Maes Strategol 3 y Strategaeth yn rhoi sylw penodol i 'gryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned'. Nod yr astudiaeth hon oedd ychwanegu at ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymunedau, ac asesu a yw'r math o raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn diwallu anghenion cymunedau.
- 1.3 Bwriad yr ymchwil oedd mynd i'r afael â'r pedwar prif gwestiwn ymchwil isod, gan ystyried ffactorau ehangach yn ogystal:
 - Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy?
 - Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i integreiddio pobl ddi-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg?
 - Beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi newid ieithyddol o fewn cymunedau gwahanol?

- A yw dull Llywodraeth Cymru o gynllunio ieithyddol, fel y'i hamlinellir yn Strategaeth y Gymraeg, yn sicrhau'r ysgogiad sydd ei angen a'r hyfywedd ieithyddol cynaliadwy sydd ei angen yng nghymunedau Cymru?

1.4 Wrth ddehongli'r fanyleb ymchwil, rhoddwyd sylw penodol i'r isod:

- dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith megis cyddestun, sgiliau ieithyddol ac agweddau at iaith;
- canfod barn y cyhoedd ynglŷn â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol;
- cyfrannu at ddatblygu fframwaith teipoleg i fapio proffiliau ieithyddol cymunedau gyda'r nod o gynorthwyo cynllunwyr ieithyddol i benderfynu ar ymyriadau addas;
- cynnig argymhellion polisi ymarferol i hysbysu strategaeth ieithyddol cymunedol yng Nghymru.

1.5 Er mwyn cyflawni'r nod a'r amcanion hyn, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru dewiswyd chwe chymuned i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dewiswyd pedair cymuned (sef Aberteifi, Bangor, Llanrwst a Rhydaman) ar y sail eu bod / wedi bod yn rhan o gynllunio bwriadus Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol. Dewiswyd dwy gymuned, Aberystwyth a Phorthmadog, fel enghreifftiau o gymunedau nad oedd wedi derbyn yr un dwyster o gynllunio bwriadus.

2. Methodoleg

2.1 Er mwyn adlewyrchu cymhlethdod a natur amlweddol gynllunio ieithyddol cymunedol yng Nghymru, defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg yn yr astudiaeth. Tynnwyd ar y pedwar dull methodolegol canlynol:

- Grwpiau Ffocws
- Arolygon stryd
- Dadansoddiad a dehongliad o ddata ystadegol eilaidd
- Data monitro a data gweinyddol Llywodraeth Cymru a'u partneriaid

2.2 Cynhaliwyd 30 o grwpiau ffocws (pump ym mhob cymuned) gyda grwpiau cymunedol yn seiliedig ar y categorïau isod:

- Rhieni â phlant ifanc

- Pobl ifanc
- Pobl canol oed
- Pobl hŷn
- Dysgwyr

- 2.3 Yn ogystal, gweinyddwyd 638 o arolygon stryd ar strydoedd mawr neu fannau canolog y chwe chymuned.
- 2.4 Cydweithiodd Prifysgol Bangor â Hywel M. Jones, Statiaith ac Arad Research yn ystod y broses casglu data.

3. Canfyddiadau Allweddol

- 3.1 Yn ôl yr ymatebwyr mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned, er bod rhai bylchau yn bodoli (e.e. gweithgareddau i bobl ifanc hŷn). Yn ogystal â hynny, gwelwyd ymwybyddiaeth a defnydd o gynlluniau a gweithgareddau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.
- 3.2 Nid oedd pawb a holwyd o fewn y chwe chymuned yn mynychu gweithgareddau cymunedol. I lawer o ymatebwyr roedd rhyngweithiad cymunedol yn seiliedig ar weithgarwch dydd-i-ddydd megis siopa a chyrchu gwasanaethau.
- 3.3 Amlygwyd yr arfer ieithyddol o ddefnyddio'r Saesneg mewn cyd-destunau ffurfiol, e.e. wrth siopa a chyrchu gwasanaethau cyhoeddus. Er hynny, roedd rhai unigolion yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd hyn.
- 3.4 Yn ôl yr ymatebwyr mae gan y system addysg ddylanwad ar arferion ieithyddol y cymunedau o dan sylw. Cyfeiriwyd yn benodol at sut roedd arferion ieithyddol a sefydlwyd o fewn ysgolion yn dylanwadu ar batrymau defnydd iaith o ddydd i ddydd yn y gymuned.
- 3.5 Cafwyd tystiolaeth o'r chwe chymuned bod dysgwyr yn ceisio defnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Fodd bynnag, lleisiodd sawl dysgwr rwystredigaeth ynghylch y diffyg cyfleoedd cymunedol anffurfiol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i weithgareddau penodol i ddysgwyr.
- 3.6 Gwelwyd defnydd o ffynonellau amrywiol i ganfod gwybodaeth ynghylch

gweithgareddau iaith Gymraeg o fewn y chwe chymuned. Roedd hyn yn cynnwys dulliau traddodiadol (e.e. papurau bro a rhwydweithiau cymdeithasol), yn ogystal â llwyfannau digidol (e.e. gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol).

- 3.7 Mewn nifer o achosion, mynegodd ymatebwyr y farn bod y canolfannau trefol wedi profi cyfnod o Seisnigo tra bo'r pentrefi cyfagos yn parhau'n hyfyw o ran y Gymraeg.

4. Casgliadau

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o gynlluniau a gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned. Cafwyd tystiolaeth o fewn y chwe chymuned o ymwybyddiaeth a defnydd o'r cynlluniau hyn, er bod bylchau yn bodoli mewn cymunedau unigol.
- 4.2 Dengys yr ymchwil bod gwahaniaeth yn natur ieithyddol y cymunedau o dan sylw, sy'n awgrymu bod angen gwahanol ddwystr o gynllunio i gefnogi'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Yn yr astudiaeth hon, gwelwyd bod rhai cymunedau yn cynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bo'r gweithgareddau hynny yn fwy prin mewn cymunedau eraill. Ymddengys felly bod yr egwyddor o flaenoriaethu sylw a dwystr rhaglenni cynllunio ieithyddol yn ôl anghenion lleol yn un dilys. Fodd bynnag, ymddengys hefyd bod angen adolygu lefel y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer y cymunedau mwy bregus, er mwyn sicrhau fod y gynhaliaeth yn ymateb i'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
- 4.3 Ni welwyd gwahaniaethau clir rhwng y cymunedau a oedd yn rhan o gynllunio bwriadus Llywodraeth Cymru a'r rhai nad oedd wedi derbyn yr un lefel o gynllunio dwys i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned. Serch hynny, gwelwyd tystiolaeth bod y Gymraeg mewn rhai cymunedau sydd yn rhan o gynllunio bwriadus Llywodraeth Cymru yn parhau i fod mewn sefyllfa fregus.
- 4.4 Ceir tystiolaeth yn yr astudiaeth hon o'r angen i gynyddu'r pwyslais ar gefnogi'r Gymraeg o fewn rhyngweithiad dydd i ddydd sy'n digwydd y tu hwnt i glybiau a chymdeithasu ffurfiol, er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol.
- 4.5 Cesglir bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach y dangosydd a

ddefnyddir i fesur hyfywedd y Gymraeg ar lefel gymunedol o fewn ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *iaith fyw: iaith byw*. Er bod niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg yn ddangosydd pwysig, mae angen pwysleisio'r defnydd dyddiol ehangach a wneir o'r Gymraeg mewn cymunedau.

5. Argymhellion

- 5.1 Llywodraeth Cymru i sicrhau fod ei strategaethau a'i pholisiau cynllunio ieithyddol ym maes y teulu, addysg a'r gweithle yn rhoi lle canolog hefyd i'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- 5.2 Llywodraeth Cymru i sicrhau fod camau pendant mewn lle i gryfhau'r pontio rhwng y byd addysg a'r gymuned ehangach drwy amrediad o weithgareddau hamdden atyniadol i bobl ifanc hŷn.
- 5.3 Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r pwyslais ar ddefnydd y Gymraeg mewn rhyngweithiadau dydd-i-ddydd (e.e. defnydd iaith mewn siopau ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus), yn ogystal â defnydd y Gymraeg mewn digwyddiadau sydd wedi'u trefnu yn y gymuned.
- 5.4 Llywodraeth Cymru i roi camau ar waith i sicrhau darlun manylach a mwy cynhwysfawr o batrymau defnydd iaith mewn perthynas â thueddiadau trefol/gwledig.
- 5.5 Llywodraeth Cymru i sicrhau dulliau pwrpasol ac effeithiol o rannu gwybodaeth gyfredol am weithgareddau cymunedol Cymraeg a dwyieithog, er mwyn cyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf posibl.
- 5.6 Llywodraeth Cymru i roi camau pellach ar waith i hwyluso cyfranogiad dysgwyr y Gymraeg y tu hwnt i'r cyd-destunau sydd wedi eu neilltuo yn benodol ar eu cyfer.
- 5.7 Llywodraeth Cymru i ddatblygu dangosydd mwy ystyrlon na'r un sydd yn bodoli ar hyn o bryd i fesur effeithiolrwydd ei strategaeth i hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn cymunedau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5720
Ebost: catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 7 Hydref 2015
ISBN: 978-1-4734-4847-6
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>